Tyfu Canolbarth Cymru Growing Mid Wales

**ADRODDIAD I FWRDD TYFU CANOLBARTH CYMRU**

**26 Ionawr 2024**

| | |
|---|---|
| TEITL: | Adroddiad Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru |
| AWDUR: | Dai Price, Rheolwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol |

## 1. Diben yr adroddiad

1.1. Diben yr adroddiad yw rhoi diweddariad ynghylch cynnydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, yn enwedig:

- Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Creu gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol
- Data a gwybodaeth am y farchnad lafur
- Grwpiau clwstwr busnes a'u rôl
- Arweiniad ynghylch gyrfaoedd

## 2. Crynodeb gweithredol

2.1. Mae'r tîm Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi adolygu ei swyddogaethau trwy drafod gyda'r tîm presennol a thimau ehangach rhaglen Tyfu Canolbarth Cymru, arweinwyr gwleidyddol, uwch swyddogion a llawer o rhanddeiliaid a busnesau.

2.2. Y trafodaethau hynny sydd wedi ein galluogi i ddiffinio beth y byddai Canolbarth Cymru yn ei ystyried yn llwyddiant o ran y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, gan sicrhau ar yr un pryd bod y gweithgarwch yn cyd-fynd â gofynion Llywodraeth Cymru ar gyfer y Bartneriaeth.

2.3. Yn gryno, bydd y tîm a'r bwrdd Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn anelu at gyflawni'n llwyddiannus yn erbyn canlyniadau Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol cenedlaethol Llywodraeth Cymru fel y pennir, yn ogystal â chyflawni'r blaenoriaethau a amlygwyd yn benodol gan fusnesau ac uwch swyddogion allweddol yn y rhanbarth yn adran 5 y ddogfen hon.

2.4. Mae'r adolygiad byr hwn wedi amlygu rhai bylchau yn ein dull gweithredu presennol. Mae'r ddogfen yn esbonio beth yw'r bylchau hynny a sut y byddwn yn mynd i'r afael â nhw.

## 3. Cefndir

3.1. Nod Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yw dadansoddi'r ddarpariaeth o ran sgiliau a dylanwadu arni, a hynny ar sail angen economaidd rhanbarthol, er mwyn hybu twf a phrosiectau seilwaith allweddol ym mhob rhanbarth. Mae'r Cynlluniau Cyflogaeth a Sgiliau Rhanbarthol yn adeiladu ar flaenoriaethau a nodwyd gan Ardaloedd Menter, Bargeinion Dinesig, Dinas-ranbarthau a threfniadau cydweithio trawsffiniol, ac maent yn hybu'r blaenoriaethau hynny.

3.2. Caiff y cynlluniau eu diweddaru bob tair blynedd ac maent yn darparu argymhellion i Lywodraeth Cymru er mwyn dylanwadu ar y gwaith o flaenoriaethu a threfnu cyllid ar gyfer sgiliau, sy'n cynnwys dyraniadau ar gyfer prentisiaethau ac addysg bellach.

3.3. Yn eu rhanbarthau, mae Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol yn ymwneud hefyd ag ymchwil sy'n parhau, gwybodaeth am y farchnad lafur, gwaith datblygu, a'r gwaith o gyflawni prosiectau Cronfa Gymdeithasol Ewrop, gan sicrhau bod rhanbarthau'n cyd-fynd yn strategol â cheisiadau am gyllid Ewropeaidd a gan weithio gyda chwmnïau angori a chwmnïau eraill sydd o bwys rhanbarthol.

3.4. Ceir 4 Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol ar draws Cymru ar hyn o bryd.

## 4. Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru

4.1. Fel y disgrifir uchod wrth egluro'r cyd-destun cenedlaethol ar gyfer Partneriaethau Sgiliau Rhanbarthol, i fod yn llwyddiannus rhaid i Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru sicrhau bod y sectorau sy'n flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth yn cael eu cefnogi gan ddata cenedlaethol a ategir gan wybodaeth fusnes leol.

4.2. Drwy'r broses hon, byddwn yn gallu sianelu rôl y Bartneriaeth i sicrhau:

- Bod y Bartneriaeth yn pontio'r bwlch rhwng addysg, sgiliau ac adfywio er mwyn creu economi gref a bywiog a ategir gan arloesi, twf a gweithlu medrus.
- Bod y Bartneriaeth yn un sy'n gweithio gydag arweinwyr busnes a rhanddeiliaid i nodi anghenion o ran sgiliau ar draws y rhanbarth yn awr ac yn y dyfodol.

4.3. Er mwyn llwyddo, bydd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn ceisio cyflawni pedwar canlyniad allweddol:

- Cynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn llywio blaenoriaethau yn awr ac yn y dyfodol.
- Adolygu'r ddarpariaeth ranbarthol o ran sgiliau.
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau, hyfforddiant ac addysg.
- Bod yn gorff strategol sy'n cynrychioli buddiannau rhanbarthol.

4.4. Mae Partneriaeth Sgiliau Rhanbarthol Canolbarth Cymru yn rhan o raglen Tyfu Canolbarth Cymru ac mae'n cyd-fynd yn agos â'r gweithgarwch hwnnw. Felly, mae'r Bartneriaeth yn adrodd yn uniongyrchol i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru.

## 5. Cynnydd o ran gweithredu

### <u>Bwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol</u>

5.1. Cyflwynwyd cynnig i fwrdd y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, a oedd yn argymell y dylid lleihau aelodaeth y bwrdd o 47 o aelodau i oddeutu 25, gan sicrhau bod y strwythur clystyrau busnes newydd yn cael ei gynrychioli. Bydd cadeirydd pob clwstwr yn cael lle'n awtomatig ar y bwrdd ochr yn ochr â sectorau allweddol eraill sy'n gwneud penderfyniadau yn y rhanbarth, megis y sector addysg bellach, y sector addysg uwch, awdurdodau lleol a'r Fargen Twf.

5.2. Cafodd y cynnig hwn ei dderbyn gan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol a'i gyflwyno i Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru wedyn er mwyn iddo gael ei gymeradwyo. Cafodd y cynnig ei gymeradwyo.

5.3. Anfonwyd llythyrau at aelodau presennol a newydd o'r bwrdd yn egluro'r newid yn aelodaeth y bwrdd a'u safle o fewn y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol.

5.4. Mae strwythur newydd y bwrdd bellach wedi'i sefydlu a bydd cyfarfod cyntaf y bwrdd newydd yn cael ei gynnal ddydd Llun 29 Ionawr 2024.

## 6. Creu gwefan y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol

6.1. Rhaid i ni sicrhau bod gwaith y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn weladwy ac yn dryloyw. Felly, ar ôl cael cymeradwyaeth gan Fwrdd Tyfu Canolbarth Cymru, rydym wedi ymgysylltu â chwmni dylunio gwefannau ac mae gwefan y Bartneriaeth wrthi'n cael ei chreu. Bydd y wefan ar gael o fis Chwefror 2024.

6.2. Bydd yr Arsyllfa Ddata, a fydd ar y wefan, yn adnodd hygyrch ar gyfer pob math o wybodaeth ranbarthol am y farchnad lafur – bydd yn cael ei lansio ddiwedd mis Chwefror 2024.

## 7. Data a gwybodaeth am y farchnad lafur

7.1. Rhan o rôl y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, fel y nodwyd mewn datganiadau cynharach, yw crynhoi a dadansoddi data a gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn sicrhau eu bod yn gyfredol ac yn berthnasol.

7.2. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol yn bwriadu gwneud hynny drwy fabwysiadu dull gweithredu sy'n cynnwys tri cham:


1. Gweithio gyda chwmni dadansoddi data, sy'n drydydd parti, a fydd yn darparu dadansoddiad trylwyr yn flynyddol o'r sectorau sy'n flaenoriaeth, yn nodi lefelau cyfredol sgiliau a gwaith recriwtio, ac yn nodi tueddiadau sy'n dod i'r amlwg a rhagolygon o ran twf ar gyfer pob sector.

**Mae'r broses dendro bellach wedi'i chwblhau ac mae contractwr wedi'i benodi. Mae'r gwaith wedi dechrau a bydd yn cael ei gwblhau erbyn mis Mawrth 2024.**

2. Bydd arolygon cyflogaeth a sgiliau ar gyfer y canolbarth yn cael eu crynhoi bob blwyddyn; bydd hynny'n darparu safbwynt cyfredol busnesau Canolbarth Cymru ar y dirwedd o ran sgiliau a gwaith recriwtio.

   **Mae arolygon sgiliau bellach wedi'u cwblhau, gyda 111 o ymatebion. Mae data bellach yn cael ei gasglu o ganlyniad. Bydd adroddiad ar yr ymatebion ar gael ym mis Chwefror 2024.**

Q2 In which area is your business located?




3. Bydd grwpiau clwstwr sectorau'r canolbarth yn adolygu'r holl ddata sydd wedi'i grynhoi, yn sicrhau ei fod yn gwneud synnwyr ac yn darparu darlun arbenigol ar gyfer y sector dan sylw.

   **Mae 10 o'r 11 grŵp clwstwr wedi'u sefydlu ac mae 6 grŵp bellach wedi cwrdd.**

## 8. Cyfarwyddyd Gyrfa

8.1. Rydym wedi sefydlu 9 grŵp clwstwr busnes a 2 grŵp clwstwr cynorthwyol, a bydd pob un ohonynt wedi cwrdd am y tro cyntaf yn ystod mis Tachwedd, mis Rhagfyr a mis Ionawr. Mae'r cadeiryddion i gyd wedi'u penodi ac mae cylch gorchwyl wedi'i greu.

- Gweithgynhyrchu Uwch a Pheirianneg (Ymchwil Gymhwysol ac Arloesi)
- Adeiladu ac Ynni
- Amaethyddiaeth
- Twristiaeth a Hamdden
- Iechyd a Gofal Cymdeithasol
- Cludiant a Logisteg
- Bwyd a Diod
- Digidol
- Y Sector Cyhoeddus

- Y Grŵp Darparwyr Hyfforddiant/Cyflogadwyedd
- Y Warant i Bobl Ifanc

8.2. Mae aelodau'r grwpiau wedi cytuno drwy'r cylch gorchwyl i:

- Gynhyrchu a dadansoddi gwybodaeth am y farchnad lafur er mwyn llywio blaenoriaethau yn awr ac yn y dyfodol ar gyfer eich sector.
- Adolygu a datblygu darpariaeth ranbarthol o ran sgiliau, sy'n benodol i'ch sector, er mwyn llywio'r Cynllun Cyflogaeth a Sgiliau 3 blynedd a'r Cynllun Gweithredu.
- Dylanwadu ar benderfyniadau ynghylch sgiliau, hyfforddiant ac addysg sy'n benodol i'ch sector.
- Creu a diweddaru canllaw i yrfaoedd ar gyfer eich sector penodol chi.
- Darparu profiad gwaith a dylanwadu ar y sector i gymryd rhan mewn cynlluniau profiad gwaith.
- Darparu addysg a chyngor am yrfaoedd i bobl ifanc a dylanwadu ar y sector i ddarparu addysg a chyngor o'r fath.
- Bod yn grŵp sy'n arwain y sector ac sy'n cynrychioli buddiannau rhanbarthol.


## 9. Arweiniad ynghylch gyrfaoedd

9.1. Mae tîm y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi blaenoriaethu darparu arweiniad ynghylch gyrfaoedd i bobl ifanc fel amcan. Nodwyd bod hynny'n flaenoriaeth ar gyfer y rhanbarth.

9.2. Ar ôl ymgynghori â llawer o ddarparwyr addysg, busnesau a chynrychiolwyr awdurdodau lleol, cydnabuwyd nad yw'r gwasanaeth presennol sy'n cynnig arweiniad ynghylch gyrfaoedd yn addas i'w ddiben mwyach a bod angen datblygu model newydd.

9.3. Mae'r Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol wedi dechrau casglu gwybodaeth gan bartneriaid a phobl ifanc drwy gyfrwng arolygon a fydd yn dangos ein darpariaeth ar hyn o bryd.

9.4. Yna, byddwn yn egluro sut beth y gallai'r ddarpariaeth fod a sut y dylai fod. Gan ddefnyddio strwythur clystyrau busnes y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol, rydym o'r farn y gallwn gyflwyno strwythur a fydd yn sicrhau bod gan ysgolion, awdurdodau lleol a phartneriaid fynediad uniongyrchol i gronfa o fusnesau a all ddarparu cyngor am yrfaoedd, lleoliadau gwaith a chyfleoedd eraill.




9.5. I reoli'r model hwn yn llwyddiannus, bydd angen adnodd pwrpasol gan wasanaeth Gyrfa Cymru neu gan awdurdodau lleol/ysgolion, a fydd yn gweithio gyda grwpiau clwstwr y Bartneriaeth Sgiliau Rhanbarthol. Fodd bynnag, bydd y Bartneriaeth yn parhau i reoli'r grwpiau clwstwr yn barhaus. Nid yw'r adnodd hwn wedi'i sefydlu eto.

## 10. Goblygiadau cyfreithiol

10.1. Dim.

## 11. Goblygiadau o ran adnoddau dynol

11.1. Dim.

## 12. Goblygiadau ariannol

12.1. Dim.

## 13. Atodiadau

13.1. Dim.